awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Amlinelliad o'r Swydd

Teitl y swydd:

Cynorthwy-ydd Parc Achlysurol

Sail:

Achlysurol

Cyflog:

Gradd 9

Statws:

Achlysurol

Lleoliad:

Parc Bryngarw

Yn atebol i:

Rheolwr Parc Gwledig

Yn atebol am:

Amherthnasol

Eich Swyddogaeth:

Cefnogi ein Ceidwaid Parciau gyda'u dyletswyddau o ddydd i ddydd gan roi sylw arbennig i reoli sbwriel a glendid yn y prif ardaloedd i ymwelwyr.

Yn y swydd hon, byddwch yn:

- Sicrhau bod pob man yn glir o sbwriel drwy gydol y dydd
- Cynorthwyo ymwelwyr wrth gyrraedd y parc – parcio ceir, helpu ymwelwyr i ddefnyddio'r peiriant talu ac arddangos, cyfeirio ymwelwyr at wahanol rannau o'r parc/digwyddiadau a.y.b.
- Ateb ymholiadau ymwelwyr am y parc – yn bersonol a dros y ffôn.
- Glanhau toiledau ac ailgyflenwi'r rholyn papur toiled, sebon hylif ac ati
- Gwagio'r sbwriel a chodi sbwriel yn ôl y gofyn
- Sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau, a bod y dogfennau cywir yn cael eu cwblhau
- Cynorthwyo gyda digwyddiadau, gwirfoddolwyr, archebion y Ganolfan Addysg ac unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Byddwch yn gyfrifol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai gael ei effeithio gan eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad ei hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth rydych chi'n ei wneud, gan arsylwi a hyrwyddo pedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymuso, Cydweithredol a Theg
- Sicrhau bod gweithgareddau yn cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth
- Herio'n weithredol gwahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Byddwch yn gyfrifol am ddiogelu a hybu lles plant, pobl ifanc, ac oedolion sydd mewn perygl.
- Gofalu am eich llesiant corfforol a seicolegol eich hun pryd bynnag y bo modd.
- Cefnogi llesiant seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol
- Bod yn gyfrifol am ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd trwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at yr amcanion sefydliadol yn unol â strategaeth cynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen
- .Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau y swydd hon, a bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi ymgymryd â thasgau/dyletswyddau eraill sy'n cael eu neilltuo'n rhesymol i chi ac sydd o fewn gallu a gradd y rôl hon.

Manyleb y Person

Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Y gallu i fod yn ofalus gyda phobl ac yn ddiplomataidd. (H)
- Parod i helpu ac yn hawdd mynd atoch. (H)
- Gonest ac yn ddibynadwy. (H)
- Agwedd hyblyg a brwdfrydig

Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
(NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL (H):

- Safon dda o addysg neu'r gallu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf
- Profiad profedig mewn amgylchedd tebyg
- Y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol(H)
- Sgiliau trefnu da
- Y gallu i weithio'n rhagweithiol(H)
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth(H)
- Profiad o weithio ym maes rheoli cefn gwlad
- Diddordeb mewn astudiaethau natur(H)
- Profiad o weithio mewn swydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid (H)